"Profwch bob peth; deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

YR

YMOFYNYDD:

RHYDDID, GWIRIONEDD, CARIAD.

CYFRES NEWYDD.] CHWEFROR, 1888. [RHIF 2.

CYNNWYSIAD.

	TUD.
Genedigaeth Iesu Grist	25
"Sanctaidd, sanctaidd, sanctaidd"	29
Dr. Vance Smith ar Lyfr Job	29
Mewn Priodas Iuddewig	33
Y Peiriannydd Bach	35
Pregethwyr yn ysmocio	41
Nodynau Gwasgarog	42
Manion a Hanesion	46
Marwgofion	48

Pris Tair Ceiniog.

ABERDAR:

ARGRAFFWYD GAN JENKIN HOWELL, COMMERCIAL PLACE.

YR

YMOFYNYDD.

Cyfres Newydd.] CHWEFROR, 1888. [Rhif 2.

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda.—Paul.

GENEDIGAETH IESU GRIST.

Pregeth gan y diweddar Barch. W. Thomas, M.A. (Nadolig, 1870).

(Parhad o'r Rhifyn diweddaf.)

3. Ystyrier y pethau a achosant fwyaf o gynhwrf ac arswyd yn y gwersyll Cristionogol. Pechod—anfoesoldeb y wlad? Nage. Nid wyf yn dweyd na wneir ymgais yn erbyn anfoesoldeb. Ni fynaf ddwyn camdystiolaeth. Ond nid yn erbyn anwybodaeth, anonestrwydd, *genteel double-dealing*, trais a gormes, annghymmedroldeb, ac anniweirdeb, erioed etto y rhoddwyd mewn gwaith holl nerthoedd ein Heglwys Sefydledig ni yn y wlad hon—yr eglwys a fyn yma gyda ni, fel y myn Eglwys Rhufain mewn parthau ereill, mai hi yw yr unig wir eglwys, ac y mae y peth yn rhy wir am ein heglwysi ereill. Pa bryd y gwelwyd ein Heglwys Genedlaethol ni ar ei goreu—yn gosod pob gewyn mewn llawn waith, yn ymysgwyd o'i phen i'w thraed, yn dyfod allan o'i hystafell, ac yn ymlawenhau fel cawr i redeg gyrfa? Pa bryd? Pan yr oedd Deddf y Goddefiad—deddf dda i'w chael ar y pryd, ond deddf y mae ei henw yn esponiad ar y dulliau o feddwl sy wedi bod yn teyrnasu yn y wlad hon—yn cael ei chynnyg yn 1689 i ganiatau i Ymneillduwyr hawl i adeiladu capeli i addoli Duw? O na. Yr oedd corff yr eglwys yn ffyrnig yn erbyn y fath beth. Pa bryd? Ai yn 1812, pan y pasiwyd act yn peru nad oedd raid mwy carcharu a dirwyo ac erlid y sawl a gredent mai Un Duw sydd ac nid Un Duw yn Dri o Bersonau, ond y gallai y rhai a ddalient y cyfryw syniadau gydaddoli mewn lleoedd cyfleus? Ai y pryd hwn? O na, yr oedd yr eglwys yn annghymmodlawn a digllawn ac Ymneillduwyr iawnffyddiog a gawsent ryddid Deddf y Goddefiad yn ffyrnig hefyd. Pa bryd? Ai pan y di-

lewyd y *Test and Corporation Act* yn 1828? Dim o'r fath beth. Proffwydent ddinystr buan y deyrnas a diwedd pob peth. Pa bryd? Ai y flwyddyn ddylynol, pan basiwyd y *Catholic Emancipation Bill*—yn rhoddi drws agored i Babyddion ddal swyddi yn y wlad hon? Yr oeddynt yn gynddeiriog yn gwrthwynebu. Pa bryd? Ai i ddwyn Mesur Diwygiad *(Reform Bill)* 1832 i fod yn gyfraith—i roddi mwy o allu i ddeiliaid y deyrnas—i'r rhai a wnant waith ac a dalant drethi y deyrnas? Na, bu eu gwrthwynebiad yn hir, ystyfnig, a di-ildio? Pa bryd? Ai i leihau treuliau anferthol y fyddin a'r llynges, ac i ddarostwng ysbryd rhyfelgar y deyrnas? Dim erioed fel corff: taflant eu pwysau i'r ochr arall, i wastraffu arian ar y fyddin a'r llynges ac i barhau rhyfeloedd. Pa bryd? Ai i waredu y wlad hon oddiwrth waradwydd du y gaethfasnach? Dim ond un o'r Gwir Barchedig Dadau yn Nuw a gododd ei lais dros ddileu y gaethfasnach yn 1834. Pa bryd? Ai i ddileu Deddfau yr Yd a thaflu ein porthladdoedd yn agored i gynnyrch gwledydd tramor, a thrwy hyn i gael bara rhatach? Na, gwrthwynebasant yn gyndyn, a phan ddychwelwyd Syr Robert Peel i ffydd Cobden, cyflawnodd bechod anfaddeuol yn erbyn y parti i'r hwn y buasai yr urddas penaf. Pa bryd? Yn amser y rhyfel diweddar yn yr Unol Dalaethau, a oedd cydymdeimlad yr eglwys gyda'r Talaethau Deheuol, y rhai a fynent sefydlu eu llywodraeth ar gaethwasanaeth, ai, ynte, gyda'r Talaethau Gogleddol, y rhai, o'r diwedd, a lwyddasant i sychu ymaith yr ysmotyn gwahanglwyfus hwn oddiar enw da'r werin-lywodraeth? Na, a barnu wrth y seiniau nid anhynod a roddid gan *organs* yr Eglwys ar y dechreu gyda'r De y teimlai, ac nid hyd nes y dechreuodd y Gogledd ennill y dydd y trosglwyddodd ei gwarogaeth i'r Gogledd. Pa bryd? Pa bryd y gwelwyd ein Heglwys Genedlaethol yn dihuno? Ai i basio *Reform Bill* 1867? Ai i ddadsefydlu a dadwaddoli Eglwys Brotestanaidd yr Iwerddon? O na, dyma'r pryd y gwelwyd hi yn deffroi o ddifrif, fel nas gwelwyd hi yn fynych o'r blaen, i wrthwynebu hyd at waed—nid i helpu. Ac fel hyn mae y Gristionogaeth boblogaidd—y grefydd sefydledig—fel rheol, wedi bod bob amser yn ofni, yn gwrthwynebu, yn difrio diwygiad; wedi bod yn faen tramgwydd ac yn graig rwystr ar ffordd y trosglwyddiad i'r werin o allu yn y wladwriaeth. Nid ofni gorthrwm, nid ofni trais, nid ofni anwybodaeth, nid ofni trethu y tlodion tuag at gynnal i fyny eglwys y cyfoethogion, ond ochro gyda'r pethau hyn nes ennill enw anhyfryd iddi ei hun. Ond y mae rhywbeth ag y mae yr eglwys yn ei ofni—rhydd-ymofyniad, amheuaeth, cynnydd gallu y werin, addysg anenwadol. Ysgrifenied seithwyr da eu gair a dysgedig gyfrol o *essays and reviews*, yn traethu mewn ysbryd rhydd a rhesymol ar rai o brif bynciau duwinyddol y dydd, bydd sidanau yr esgobion—*surpliced merchants* Lloegr mewn *flutter* a gwewyr tost yn nghannoedd o ficerdai ein gwlad, a gwysir pob un o'r ysgrifenwyr a ellir i roddi cyfrif gerbron Chwil-lys y bedwaredd ganrif ar bymtheg am ei heresi. Gwaded y Proffeswr Maurice dragwyddoldeb parhad poenau yr annuwiol, a theflir ef allan o'i swydd o athraw yn King's College, Llundain. Ysgrifened Esgob Colenso, fel dyn call ac ysgolhaig ar bum llyfr Moses

ac *organiza* braidd holl lengoedd yr Eglwys Wladol eu hunain i'w aflonyddu ac i geisio ei ddiswyddo o fod yn esgob. Ni chafodd Temple, Esgob presenol Exeter, lonydd nes iddo addaw, os cyhoeddid argraffiad newydd o'r *Essays and Reviews*, na chai ei *essay* ef ymddangos yn y fath gwmni drwg. Defnyddied Charles Voysey ei ffondafl a'i garreg i anelu at wyrthiau ac Iawn ac Ysprydoliaeth lawn *(plenary)*, ceblir ac erlidir ef, ac yn y diwedd, dodir ef ar ei brawf.

Yr wyf wedi nodi yr enghreifftiau hyn fel rhai cyfarwydd i bawb, ac wedi dygwydd yn eglwys fawr freiniol ein teyrnas. Ond er mwyn tegwch, rhaid dweyd fod yr un ysprydyn ffynu yn y cyrff Ymneillduaidd. Rhaid addef fod ffroen Ymneillduaeth yn gyflym ryfeddol i arogli heresi. Mae aml i amheuaeth onest wedi ei diffodd yn y seiat, ac aml i heresi obeithiol yn y plisg wedi ei dienyddio yn y sassiwn. Mae y diaconiaid—*lords of the congregation*—lawer tro, wedi *starvo* rhydd-ymofyniad eu gweinidog ieuanc, trwy dynu llinynau pwrs yr eglwys yn nghyd, rhag iddo ef a'i wraig a'i blant gael gormod o bethau da'r byd hwn. Mae yna lawer areithfa at yr hon yr edrychwyd gan feddyliau ieuainc ymofyngar, anturiaethus, am air o gyfarwyddyd ac annogaeth yn eu hymchwil am oleuni gwell ar ryw hen athrawiaeth, ond yn ofer. Mae yna luaws o erlidigaethau bychain *(petty persecutions)* â'r rhai y buwyd yn erlyn rhyw un o feddwl rhydd ac eang a fynai ledu ei esgyll yn ddirwystr yn awyr y gwirionedd.

O! na ddeuai yr Eglwysi Cristionogol yn ein mysg i ymdrechu yn erbyn—nid pethau da a gobeithiol ag sydd abl i, ac yn sicr o, arwain i ddyfodol gwell—ond yr elfenau dinystriol hyny ag sydd ar waith mewn cymdeithas. O! nad unent yn nghyd i fwrw allan y cythreuliaid sy'n difa nerth cymdeithas—yr ysprydion aflan, cyndyn, nad ânt allan heb ympryd a gweddi—ïe, gymmaint â hyny yn waeth nag ysprydion aflan amser Crist—nad ânt allan heb rywbeth yn mhellach nag ympryd a gweddi: anwybodaeth, rhagfarn, culni sectol, ffurfioldeb yr ysprydyd a ddywedai gynt "Y mae genym ni Abraham yn dad i ni," ffalsder a hoced masnachol, gwagedd ffasiynau a phomp, ellyll annghymmedroldeb, gormes ar gydwybod, dirmyg a sarhad ar ymddygiad gonest a ffyddlawn, llygredigaeth oreuredig ar uchelfanau cymdeithas, anifeileidd-dra ein tlodion tlawd iawn, a'r troseddwyr proffesedig—dyna'r pethau y byddai yn dda i'n heglwysi eu hofni, ac ymfyddino yn eu herbyn yn llu banerog—nid dan faner Arglwydd y lluoedd, sef Duw Rhyfel, ond dan fanerau Duw'r Gwirionedd, Duw'r Sancteiddrwydd, Duw'r Cariad.

II. Beth sydd yn aros i gael ei wneyd—beth sydd raid i gael ei wneyd—cyn y bo Cristionogaeth ein hoes â hawl ganddi i'r enw?

1. Rhaid i ni fyned yn ol at y preseb. Rhaid i ni fyned yn ol i'r man lle dechreuodd yr Iesu. Rhaid i ni droi ein cefn ar waelderau a choegderau cymdeithas, a dychwelyd yn ol at symlrwydd natur. Rhaid i ni syrthio yn ol ar reddfau annghyfnewidiol calon dyn, fel y gwnaeth yr Iesu. Rhaid i ni arfer ein hunain i wahaniaethu rhwng da a drwg, ac nid derbyn yn unig farn a gair ereill. Nid da y Phariseaid oedd da yr Iesu; nid eu drwg hwy oedd y drwg yn ei olwg ef.

Mae bob amser mewn cymdeithas yr hyn a ellir ei alw yn dda neu ddrwg *conventional*, h.y., yr hyn a olygir yn dda neu ddrwg drwy gytundeb ac arfer yr oes a'r wlad. Dylai ein heglwysi Cristionogol edrych am uwch safon nâ'r rheol o ddrwg a da y cytunir arni ac a arferir ei chydnabod gan y lluaws ar y pryd.

Rhaid i ni barchu cynneddfau y meddwl dynol, fel y gwnai yr Iesu. Yr oedd ganddo ef ffydd yn ngallu dyn. Ni chwynfanai yn iaith llawer o grefyddwyr ein hamser ni oblegyd llygredigaeth wreiddiol ein natur a'n hanallu i ddyfod i wybod dim gwirionedd ac i wneyd dim daioni, "megys yr ydym ac o honom ein hunain." Ni wyr ef ddim am y iaith ffug-ostyngedig hon. Dywed ein duwinyddion poblogaidd wrthym fod pob plentyn a enir i'r byd yn aflan o wadn y troed hyd goryn y pen. Gofynwch iddynt am brawf, a chyfeiriant chwi at y plant hyn wedi y tyfont i fod yn ddynion. Nis gallent fod yn ddynion mor ddrwg oni buasai eu bod yn llygredig o groth eu mam. Beth a wnant? Parotoant eu hunain y tystion y maent yn myned i'w dwyn yn mlaen yn y llys dros eu hachos. Cam-addysgant—cam-hyfforddant eu plant yn ofnadwy, ac yna, troant o amgylch, gan alw ar y plant y gwnaethant hwy eu sarnu fel tystion yn y llys duwinyddol, "Eiddo y cyfryw rai, h.y., eiddo rhai tebyg i blant bychain, yw teyrnas nefoedd." Yr oedd ffydd yr Iesu yn y meddwl dynol a'i weithrediadau yn gref iawn. "Yr ydych yn credu yn Nuw, credwch ynof finau hefyd." Nid yw ef yn annog dynion i ofalu rhag i'w rheswm redeg ymaith â hwy. Na, "Y neb sydd ganddo glustiau i wrando, gwrandawed." "Gwandrustwch eich rheswm: mae yn ddall a ffaeledig," yw'r iaith a glywn ni yn aml yn awr. "Derbyniwch y gair a lefara'r offeiriad neu'r gweinidog; derbyniwch y gair a lefarodd Paul neu Iago: na holwch i fewn i'w gywirdeb â'ch rheswm eich hun, oblegyd nid yw yn addas i'r gwaith. Agorwch eich llaw i dderbyn clusenau o law meddylwyr, proffwydi, a merthyron, a saint oesau pell yn ol. Byddwch fyw ar eu *charity* hwy: nis gallwch chwi byth gloddio un maen teg allan o gwàr mawr y gwirionedd, na chasglu i chwi eich hunain un trysor yn mwngloddiau gwybodaeth. I fewn â chwi i elusendai yr amser a aeth heibio, ar y rhai y mae yr Eglwys yn *drustee*." Nis annogai Crist ei wrandawyr ychwaith i fogi llais eu cydwybod, i ofni ymddiried yn ei phenderfyniadau, i betruso rhodio yn ol ei chyfarwyddiadau—"Oni fedrwch chwi o honoch eich hunain farnu yr hyn sy dda?"

Rhaid i'n Heglwysi Cristionogol droi a drachtio eu hysprydoliaeth o'r un ffynnonell ag y gwnaeth yr Iesu. Ni ddihyspyddodd hyd y nod yr Iesu ffynnonell fawr gwirionedd a phurdeb: mawr ac anfeidrol, fel y Duwdod ei Hun yw gwirionedd, ac nis gall un oes na'r holl oesau yn nghyd, blymio ei ddyfnderoedd. Y natur a roes Duw i ni, parchwn hi fel yn dwyn ei ddelw. Y cynneddfau sy genym, trown hwy at eu gwir wrthddrychau. Y rheswm, caffed ymhyfrydu mewn gwirionedd, y gydwybod mewn purdeb; caffed pob serch pur o fewn y fynwes ei sancteiddio a'i angerddoli drwy gymdeithas â Duw, yr hwn sydd oleuni, ac â'i saint, y rhai sydd blant y goleuni.

(I'w barhau.)

EMYN.

"Ac nid oeddynt yn gorphwys ddydd a nos, gan ddywedyd, Sanct, sanct, sanct, Arglwydd Dduw Hollalluog, yr hwn oedd, yr hwn sydd, a'r hwn sydd i ddyfod."—*Datguddiad* iv. 8.

MESUR 11, 12, 12, 10.

p. Sanctaidd, sanctaidd, sanctaidd (*m.f.*) Dduw Hollalluog!
Gyda'r wawr blygeiniol dyrchafwn iti'n clod;
p. Sanctaidd, sanctaidd, sanctaidd! (*m.f.*) mawr wyt a thrugarog,
f. 'R Hwn oeddyt, wyt, a fyddi byth yn bod.

p. Sanctaidd, sanctaidd, sanctaidd! (*m.f.*) dy holl saint a'th folant—
Bwriant eu coronau aur o flaen y fainc i lawr;
Engyl a seraffiaid glan a'th ogoneddant,
Beunydd a byth i dragwyddoldeb mawr!

p. Sanctaidd, sanctaidd, sanctaidd! tywyllwch a'th orchuddia,
Fel nas gall pechadur gwael fyth edrych ar dy wedd;
m.f. Sanctaidd wyt yn unig; Ti Dduw wyt Orucha'
Mewn clod a gallu, cariad pur, a hedd!

p. Sanctaidd, sanctaidd, sanctaidd (*m.f.*) Dduw Hollalluog;
ff. Trwy ddaear, nen, a moroedd adseinir fyth dy glod;
m.f. Sanctaidd, sanctaidd, sanctaidd! mawr wyt a thrugarog;
f. 'R Hwn oeddyt, wyt, a fyddi byth yn bod!

ESGOB HEBER.

Gweler *Hymns Ancient and Modern*, 160.
Hymnau Hen a Diweddar.—[ARALLIAD.]

DR. VANCE SMITH AR LYFR JOB.

YN mhlith yr amrywiol lyfrau defnyddiol sydd wedi eu cyhoeddi yn ddiweddar gan Gymdeithas yr Ysgol Sul yn Llundain, ceir llyfr bychan ar Lyfr Job, gan Dr. Vance Smith, o Goleg Caerfyrddin. Gan fod y llyfr hwn yn dod allan o law un sydd mor gymhwys i drin materion o'r fath hyn, ac ar yr un pryd yn gosod allan ffrwyth ymchwiliadau diweddar i'r hen lyfr enwog, efallai nad annerbyniol gan ein darllenwyr fydd crynodeb byr o'i brif gasgliadau. Ni fydd y crynodeb ond byr oherwydd rheswm neillduol, ond gobeithio yn ddigon ëang i roddi i'r darllenydd ryw ddrychfeddwl am dano.

Er cael allan beth oedd yr amcan gyda'r hwn yr ysgrifenwyd Llyfr Job, cyfeiria y Dr. yn gyntaf at syniad neillduol oedd yn ffynu yn mhlith y Genedl Iuddewig; sef, y gred fod dynion yn llwyddiannus neu yn aflwyddiannus yn ol fel y byddent yn dda neu yn ddrwg. Ceir

y cyfryw syniad yma a thraw trwy yr holl Feibl: y mae trosedd Adda yn cael ei gospi yn uniongyrchol, y mae Cain yn cael ei felldithio am ei ddrwgweithrediad, ac y mae'r Arglwydd yn ymwel'd â Sodom a Gomorrah am eu pechodau; achubir Noah am ei fod yn ddyn cyfiawn; ceir y syniad hefyd yn y pummed gorchymyn, yn Deut. xxviii., yn nghyd ag yn y Salmau a'r Diarebion. Ac y mae hyn oll yn dangos fod y gred hon wedi gwreiddio yn ddwfn yn meddwl y Genedl Iuddewig er yn foreu iawn. Ond er fod y syniad hwn i'w gael trwy yr holl Feibl, y mae yn anmhossibl ei fod yn wir, er hyny. Nis gellir edrych arno bellach ond fel syniad pobl oeddynt etto yn isel iawn ar raddfa bodolaeth a dadblygiad. Nid ydys yn cael fod y cyfryw syniad yn cael ei wireddu gan ffeithiau. Pe hyny fyddai'r ffaith, byddai rhinwedd a drygioni yn bethau anmhossibl. Pe yn wir, yna byddai yn ofynol barnu dynion yn ol mesur eu llwyddiant mewn ystyr fydol; os yn aflwyddiannus, byddai hyny yn brawf digonol ei fod yn ddyn pechadurus; os yn llwyddiannus, yn ddyn da. Ac yn y syniad hwn, y mae yn ddiamheu ryw gymmaint o wirionedd, er nad yn yr hen ystyr. Onid bywyd da sydd yn fwyaf sicr o arwain dyn i feddiant o'r dedwyddwch uchaf a goreu? Dichon mai nid llwyddiant tymhorol fydd, ond llwyddiant sydd yn anfeidrol well er hyny. Ond yn nghwrs amser, fel y buasai meddyliau dynion yn dadblygu, nis gallai na fyddai rhai yn dechreu amheu y fath syniad. Delai dynion bob yn dipyn i edrych ar ffyrdd Rhagluniaeth mewn goleuni gwahanol a gwell. Ac y mae yn eithaf possibl fod ysgrifenydd Llyfr Job yn un o'r cyfryw, a'i fod (mewn canlyniad) wedi ymgymmeryd â'r gwaith er mwyn cywiro'r gred gyffredin. Dyma yn fwyaf tebygol oedd prif amcan yr awdwr wrth ysgrifenu.

Gyda'r eithriad o'r ddwy bennod gyntaf a'r olaf, y mae y llyfr yn gyfansoddiad barddonol. Nid oes i farddoniaeth Hebreaidd na mesur na chynghanedd; ond yn lle hyn, ail-adroddir yn yr ail linell y meddwl sydd wedi cael ei osod allan yn y llinell gyntaf, ond mewn ffurf wahanol. Saif y llyfr o ran mater ei gynnwys yn y radd flaenaf; ac y mae yn hynod, pan ei cymherir â llyfrau ereill y Beibl, am ei syniadau dyrchafedig am fawredd, gallu, a doethineb y Bôd Dwyfol. Seilia yr awdwr ei bryddest ar fywyd person o'r enw Job. Ystyr y gair hwn ydyw, un yn cael ei erlid; ac y mae'r ystyr hwn a'r gair yn awgrym i'r casgliad nad yw y llyfr ddim yn hanes person gwirioneddol, ond un dychymygol, ac fod yr awdwr wedi rhoddi yr enw hwn i arwr ei lyfr, oherwydd y cyssylltiad agos oedd rhwng ystyr y gair a'r dygwyddiadau a gofnodai am dano. Sonir am Job fel dyn cyfiawn, o'r tuallan i'r llyfr ei hun, ddwy o weithiau yn unig, sef, yn Ezeciel ac yn y Testament Newydd. Ond yn mhellach nâ hyn nid oes genym un wybodaeth am dano. Ac y mae hyn, yn ogystal a llawer o'r hyn a ddywedir yn y bennod gyntaf a'r olaf, yn ymddangos fel yn cadarnhau y casgliad nad oedd yr awdwr yn bwriadu i'w lyfr fod yn un hanesyddol. Ymddengys fod cyfansoddiadau o'r fath hyn, yn y rhai y gosodid allan rhyw athrawiaeth neu syniad pwysig, yn gyffredin iawn yn yr hen amser, yn enwedig yn mhlith yr Inddewon. Y mae amryw

o lyfrau y Beibl o'r natur hwn. Ac os ydyw Llyfr Job yn un o'r fath, yna nis gellir, o ganlyniad, ddweyd dim yn nghylch y wlad na'r oes yr oedd yn byw ynddynt. Gellir sylwi yn mhellach, fod Job yn cael ei osod allan yn y bennod olaf fel yn cael ei ad-dalu am ei ddyoddefiadau trwy dderbyn cymmaint arall o bob peth ac a gollodd; a chan nad yw hyn ddim yn unol â phrofiad cyffredin dynolryw, tueddir ni i gredu yn fwy fyth nad yw llyfr Job yn cynnwys hanes person gwirioneddol.

Y mae'r awdwr yn dechreu trwy ddesgrifio amgylchiadau bydol y patriarch. Ond yn gyntaf oll gesyd allan ei gymmeriad moesol. Yr oedd yn ddyn perffaith ac uniawn, yn ofni Duw ac yn cilio oddiwrth ddrygioni. Ac yn ol y syniad cyffredin, fe ddylai y fath ddyn fod yn llwyddiannus. Ac yr oedd Job felly; yr oedd yn ddyn cyfoethog yn mhob ystyr. Ac yn nghanol ei holl gyfoeth, nid oedd ychwaith yn annghofio ei ddyledswyddau crefyddol; yr oedd yn offrymu ei boeth-offrymau yn rheolaidd. Ond bob yn dipyn daw satan gerbron yr Arglwydd, a lled-awgryma nad yw Job ddim yn ofni Duw yn ddiachos, ac os y gwnai'r Arglwydd estyn ei law, a chyffwrdd â'r hyn oll oedd ganddo, y byddai Job yn sicr o'i felldithio. Ac fe dderbynia satan genad i'w brofi; a'r canlyniad yw, fod rhestr o'r cystuddiau a'r colledion mwyaf ofnadwy yn dod i ran yr hen batriarch. Ond nid oes yr un gwahaniaeth yn nuwioldeb Job: y mae yn dyoddef y cyfan yn dawel ac amyneddgar; ac y mae felly yn dangos nad yw y ffaith fod dyn yn aflwyddiannus yn un prawf nad yw yn ddyn duwiol, er hyny.

Y mae satan Llyfr Job yn feddylddrych hollol ar ei ben ei hun yn mysg llyfrau y Beibl. Nis gellir ei gymmeryd fel yr un person a satan neu ddiafol y Testament Newydd, o herwydd yn Llyfr Job y mae yn sefyll gerbron yr Arglwydd, ac yn ymdroi yn mhlith meibion Duw; hyny yw, ymddengys fel person a gedwid gan yr Arglwydd wrth law i'w gynnorthwyo i gario allan ei fwriadau yn y byd. Yn fwyaf tebygol dyma gredai awdwr y llyfr oedd ei waith. Nid yw etto yn cael ei ystyried fel gelyn annghymmodlawn Duw a dyn, fel mewn amserau diweddarach. Ceir, yn ddiamheu, ffurf gyntefig o'r syniad am satan yn Llyfr Job; ond yr oedd i fyned trwy lawer iawn o gyfnewidiadau cyn y delai i'r hyn ydoedd yn amser Iesu Grist ac wedi hyny. Sonir am satan yn yr Hen Destament, heblaw yn Llyfr Job, dair o weithiau yn unig: (1) yn Chron. xxi.; (2) yn Zech. iii.; (3) yn Salm cix. 6. Ac y mae y llyfrau hyn oll yn rhai diweddar, yr hyn a ddengys fod y syniad yn ddyeithr i ysgrifenwyr y llyfrau hynaf. Ac y mae hyn yn awgrymiadol iawn. Y mae yn ein harwain i'r casgliad mai nid syniad Hebreaidd oedd hwn yn wreiddiol, neu ynte, buasai rhyw gyfeiriad ato yn ysgrifeniadau rhai o'r hen broffwydi. Ac y mae hyn yn ein harwain i'r casgliad pellach, fod y syniad wedi dod i feddiant yr Iuddewon trwy eu cyssylltiad â chenedloedd ereill oddeutu, neu cyn, amser y caethiwed. Yr oedd y grefydd Bersiaidd yn cydnabod dwy egwyddor wrthgyferbyniol, y rhai oeddynt mewn gwrthryfel parhaus. Yr oedd amryw genedloedd Dwyreiniol ereill hefyd yn meddu ar gred o'r fath; o'r cyfryw gellir nodi allan y Babiloniaid a'r Assyriaid, i gyssylltiad agos a'r rhai y cafodd yr Iuddewon eu dwyn

yn ystod a chyn y caethiwed. Ond pa fodd bynag y daeth i'w plith, tyfodd i fyny yn raddol, ac yn amser Iesu Grist yr oedd yn gred gyffredinol.

Mae awdwr y llyfr yn anadnabyddus. Gellir, efallai, ddyfod dipyn yn agosach at yr amser a'r lle ei cyfansoddwyd, gan fod amryw ystyriaethau yn cytuno i bwyntio at yr un casgliad; ond nid oes sicrwydd yn nghylch un na'r llall. Mae yr hyn a ddywedwyd am y gred yn Satan ar unwaith yn ein harwain i'r casgliad ei fod yn llyfr diweddar. Nid yw hyn, mae yn wir, yn ddigon i brofi y cyfryw gasgliad, ond y mae yn ei wneyd yn un hollol resymol a naturiol. Mae yn amlwg fod yr ysgrifenydd yn byw mewn cyfnod pan yr oedd y gred yn Satan yn gyffredinol yn mhlith y bobl. Nis gallai hyn fod lawer cyn y caethiwed, neu buasai rhyw gyfeiriad at y gyfryw gred yn ysgrifeniadau rhai o'r proffwydi oeddynt yn byw ychydig cyn yr amser hwnw. Ar y tu arall, mae rhai ystyriaethau a ymddangosant fel yn annghysson â'r fath gasgliad. Mewn rhai manau arweinia yr ysgrifenydd ni yn ol i'r oes batriarchaidd. Mae prif arwr ei lyfr yn berson o sefyllfa yn yr hen amser. Gwasanaetha hefyd fel offeiriad (gweler xlii.) Ymddengys felly ei fod yn byw rywbryd cyn amser sefydliad yr urdd offeiriadol, ac y mae yr awdwr yn ysgrifenu fel pe byddai yn gyfarwydd â'r amserau hyny. Yn mhellach, nid oes yn y llyfr un cyfeiriad at ddeddfau a sefydliadau Moses. A oedd yr awdwr, gan hyny, yn byw cyn amser y cyfryw? Os felly, y mae yn canlyn fod y llyfr yn un hynafol iawn. Ond nis gellir gosod gormod o bwys ar y rhesymau a'r casgliadau hyn. Mae un ffaith arall y dylid cyfeirio ati. Mae yn y llyfr gyfeiriadau at lawer o bethau a ddalient gyssylltiad neillduol â'r Aifft; ac awgryma hyn y casgliad fod yr awdwr yn byw yn yr Aifft pan y cyfansoddodd y llyfr. Os felly, y mae yn bossibl (ac yn debygol) fod yr awdwr naill ai yn un o'r Iuddewon hyny a gawsant eu dwyn i'r Aifft yn amser goresgyniad Judah gan Pharaoh oddeutu diwedd y seithfed ganrif cyn Crist (gweler Bren. xxiii. 29); neu, ynte, yn un o'r rhai hyny, yn amser y caethiwed, a ddiangasant o'u gwlad ac a gymmerasant loches yn yr Aifft, yr hyn a esyd amser cyfansoddiad y llyfr yn y chweched ganrif cyn Crist. Hwn yw yr amser mwyaf tebygol o fod yn iawn.

Mae llawer iawn o wahanol farnau yn nghylch pa un a oes cyfeiriad yn Llyfr Job at sefyllfa ddyfodol. Creda Dr. Smith nad oes. Nid oes yn y llyfr un gair ag y gellir dweyd ei fod yn cyfeirio at y byd anweledig, a buasai person yn y cyflwr yr oedd Job ynddo, pe yn credu mewn byd dyfodol, yn dra thebyg o gyfeirio at y cyfryw mewn rhy'w gyssylltiad neu gilydd. Nid yw y geiriau a geir yn xix. 25—27 iw deall yn yr ystyr a roddir iddynt yn gyffredin. Cadarnheir y gosodiad hwn gan yr hyn a ddywedir yn xiv., o herwydd yn y geiriau a ddefnyddir yn y bennod hono, nid oes dim i warantu y casgliad fod eu hysgrifenydd yn credu mewn bodolaeth ddyfodol, ac nis gallai, mewn canlyniad, ei fod yn amcanu gosod ei arwr allan fel yn edrych yn y blaen at sefyllfa ddyfodol yn yr hon yr amddiffynid ei ddiniweidrwydd. Mae yn canlyn mai yr hyn a ddysgwyliai ydoedd ymddangosiad yr Arglwydd i'w amddiffyn, yr hyn, cyn y diwedd, a ddaeth oddiamgylch.

Un gair am lyfr y Dr. Smith. Ysgrifena, yn ol ei arfer, mewn iaith syml a dealladwy, fel nas gall un Cymro, os yn deall ychydig Saesneg, lai nâ'i werthfawrogi. Mae y Dr. hefyd yn trin Llyfr Job yn y fath fodd, fel ag i greu awydd yn y darllenydd i wybod rhagor am ei gynnwysiad, yr hyn sydd yn llawer o beth yn y dyddiau hyn. Y mae hefyd wedi cael ei osod i fyny mewn modd destlus, fel nad oes eisieu i neb gywilyddio wrth edrych arno yn ei lyfrgell. Ac nis gall y sawl a deimla ddyddordeb mewn pynciau o'r fath wneyd dim yn well nâ rhoddi eu swllt am y llyfr.

PHILOS.

MEWN PRIODAS IUDDEWIG.

DYDD Mercher, Ionawr yr 11eg, trwy garedigrwydd cyfaill oeddwn yn aros gydag ef ar y pryd, cefais yr hyfrydwch o fod yn bresenol mewn priodas Iuddewig. Yr wyf wedi bod mewn priodasau o'r blaen, ond dim erioed mewn priodas Iuddewig; a chan fy mod yn gwybod, bron, fod y rhyw deg yn mhlith darllenwyr YR YMOFYNYDD yn barod am wybodaeth, gwnaf fy ngoreu i'w boddloni. Nid hanes o'r llyfrau fyddaf yn eu rhoddi, ond yr hyn a welais ac a glywais â'm llygaid ac â'm clustiau fy hunan. Yr oedd y mynediad i'r Synagog, sef y capel Iuddewig, trwy docynau. Yn awr, yr oedd fy nghyfaill *on good terms* â brawd y briodasferch, a chafodd wahoddiad ganddo, gyda'r tocyn angenrheidiol yn trwyddedu dau. Holwyd yn nghylch y seremoniau angenrheidiol *i ni* i'w cadw, ac atebwyd "Dim ond un,—gofalwch gadw eich het ar eich pen." Yr oeddym i fod yno erbyn chwarter i dri. Daethom ychydig cyn yr amser; ac wrth y drws canfuom amryw heddgeidwaid. Holwyd am ein tocynau, ac wedi eu rhoddi i fyny, aethom i fewn. Gosodwyd ni i eistedd yn y lle goreu yn y Synagog, o leiaf, y lle goreu er mwyn gweled. Nid oedd llawer wedi dyfod yn nghyd etto, ond cyn hir yr oedd y lle bach yn llawn i'r lan ac i lawr; y menywod ar y llofft a'r gwrrywod ar y llawr.

Gan ein bod ychydig yn rhy gynnar, yr oedd genym gyfleusdra i fwrw golwg i bob cwr. Ac yn gyntaf, ar y capel bach, yr hwn oedd yn dlws iawn—*simplex munditiis*—yn syml ond heb ddim lol—*combining simplicity with taste.* Ar wyneb yr oriel, neu *front* y *gallery*, yr oedd coffadwriaethau am gyfraniadau at yr achos gan berthynasau am berthynasau. Nid oedd y symiau yn fawrion nac yn lluosog iawn—£5 neu £10; dim un £2,000 na £1,000, fel y ceir weithiau mewn capel Swedenborgaidd. Yr oedd yr holl ysgrifau mewn llythyrenau Hebraeg. Nid oedd yr esgynlawr yn sefyll wrth y talcen fel gyda ni; ond rhyw un rhan o dair, neu yn agos hyny oddiwrtho. Yn y talcen lle y dysgwyliasem i'r esgynlawr fod yr oedd rhywbeth wedi ei guddio â llen gwyrdd. Y tucefn i'r llen hwn y cedwid y rholiau cyssegredig. Felly y dywedwyd wrthym. Ar un o'r seddau cyfagos i ni cawsom rywbeth

tebyg i Lyfr Gweddi, neu Lyfr Gwasanaeth yr Eglwys. Nid llawer oeddym ni'n gallu wneuthur o hono, gan ei fod yn yr iaith gyssegredig. Gallem sillebu ambell i frawddeg yn unig, ac am y gweddill gallem ddywedyd, "Yr wyf yn cofio amser y gallaswn ddadrys eich cyfrinion gyda mwy o lwyddiant."

Ond dacw gyffro. Wele amryw ddynion ieuainc yn dyfod i fewn, gyda menyg gwynion ar eu dwylaw, a blodau prydferth yn y twll botwm. Mae y rhai hyn yn pasio heibio ac i'r seddau gyferbyn â ni. Gwelwn rhyw bedwar swyddog yn ymyl yr esgynlawr, dau yn gwisgo penguwchod, neu hetiau o ddull hynod. Cofier fod pob un yn cadw ei het ar ei ben. Dacw un o'r ddau yn agor ei lyfr ac yn dechreu darllen—mewn ton tebyg i offeiriaid Eglwys Loegr pan yn *intono*. Er syllu o honom a gwrando yn ddyfal nid oeddwn I'n gallu deall braidd gair. Yn mhen tipyn, dyna ddystawrwydd, ond yr oedd y gwefusau yn parhau i chwareu yn gyflym—yn amlwg mewn gweddi ddystaw. Yn y cyfamser, yr oedd darpariadau pellach wedi eu gwneuthur—yn y lle cydrhwng yr esgynlawr a'r talcen rhag-grybwylledig—y *sacred canopy* wedi ei yru i fyny gan bedwar o'r cyfeillion ieuainc yn gwisgo menyg gwynion. Math o neufwd neu *ceiling* bychan oedd hwn, ac yn cael ei ddal i fyny wrth bedwar post.

Ond dacw gyffro etto yn ymyl y drws yn y pen draw, a dacw lu o'r rhyw deg yn ymddangos, ac yn decach nag erioed heddyw yn eu dillad tlysion gwynion—rhyw 20 neu 30 o honynt. Ofer fyddai i mi geisio desgrifio'r gwisgoedd, gan fy mod yn hollol anhyddysg yn y ddysgeidiaeth hono. Yr oedd gan y briodasferch ei gorchudd gwyn dros ei gwyneb, yr hwn a fu'n achos cryn dipyn o drafferth pan ddaeth yr angenrheidrwydd ddwywaith i sipian y gwin fel rhan o'r gwasanaeth priodasol. Trefnwyd y bobl ieuainc gyda'u *gorenon*, mor bell ag yr oedd y lle yn caniatau dan y *canopy*. Yna, awd trwy y gwasanaeth yn yr Hebraeg, cyflawnwyd yr ammodau, gwisgwyd y fodrwy—ar *flaen*-fys y llaw ddehau (?), ac nid ar fys arferol (gyda ni) y llaw chwith. Ymddangosai llawer o'r hyn oeddwn yn ei weled, a bron yr oll oeddwn yn ei glywed, yn dywyll ac yn aneglur i mi.

Os wyf yn cofio yn iawn, gelwid yr hwn oedd yn darllen y gwasanaeth yn *reader*, a'r llall yn *rabbi*. O'r hyn lleiaf, darfu i'r llall yn awr draddodi anerchiad yn y Saesneg, ac anerchiad da oedd, ymarferol a hollol bwrpasol i'r amgylchiad. Dywedodd wrth y pâr ieuanc fod y dydd hwnw yn ddechreu cyfnod newydd yn eu bodo'aeth; eu bod yn gadael eu cartref boreu, gofal ac amddiffyniad tad a chariad a thynerwch mam, ac yn myned i sefydlu cartref newydd iddynt eu hunain; eu bod yn gyffelyb i long yn cychwyn o'r porthladd heb wybod ond ychydig beth oedd yn nghadw iddynt yn y dyfodol, ai storm neu hinon, gwynfyd neu adfyd; fod eu dyledswydd felly yn amlwg i fod yn gwbl ffyddlon y naill i'r llall, yn bob peth y naill i'r llall; i gadw Duw Israel mewn cof, ac i fod yn ffyddlon iddo Ef, ac i'w wasanaeth, fel y gallont ddysgwyl ei fendith ar eu gwaith.

Darlleuwyd y *contract*, neu yr ammodau pennodol oeddynt wedi eu ffurfio gan y ddau, yn yr iaith Saesneg. Gan na chymmerais *notes*

nis gallaf fanylu; ond fel hyn y mae Dr. Beard, yn ei *Dictionary of the Bible*, yn rhoddi y *written form* :—

"On the——day of the month————, in the year——, spoke A, the son of A, to B, the daughter of B: Be my spouse according to the law of Moses and the Israelites, and I will give thee as a dower of thy virginity, the sum of 200 susim required in the law. The said B agreed to become the spouse of the said A, unless the conditions which he has promised to fulfil on the day of the wedding. Thereunto the said A thus binds himself and pledges himself in all his property, even to the cloak which he bears on his shoulders. Further, he undertakes to perform all these points which are commonly contained in the marriage contract to the advantage of the wives of Israel. A, B, C, Witnesses."

Tua'r diwedd, dygwyd math o gwpan, *wine-glass* mwy nag arferol, a dodwyd ef ar y llawr, a gwnaeth y dyn ieuanc bedwar cynnyg i'w dori â'i droed cyn iddo lwyddo. Beth olygid wrth hyny?

"This done, he took the bride about the neck,
And kissed her lips with such a clamorous smack,
That, at the parting, all the church did echo."
(*Grumio to Tramio* in *The Taming of the Shrew*).

Yna, cusanwyd y wraig ieuanc gan ei pherthynasau, a bu siglo dwylaw cyffredinol, ac ymddangosai pawb yn hapus iawn.

Daeth brawd y wraig ieuanc atom, a llongyfarchasom ef, gan ddatgan y pleser mawr oeddym wedi ei gael i fod yn bresenol; ac yna, daeth hwnw atom a draddododd yr anerchiad Seisnig, a dywedodd ei fod wedi bod yn bresenol mewn gwasanaeth cyffelyb lawer tro, ac fod dedwyddwch a phleser yr amgylchiad yn ei wneuthur yn drist. Cynghorodd fy nghyfaill ef i wneuthur brys i chwilio am rywun y gallai ei dygiad at yr allor beru iddo yntau deimlo cyflawnder y llawenydd a'r cysur a fwriadodd Duw i ddyn pan "yn gosod yr unig mewn teulu."

Cawsom drafferth nid bychan i fyned allan gan luaws y bobl oeddynt wedi dyfod yn nghyd i weled a chroesawu. Aeth y bobl ieuainc i ffwrdd mewn cerbyd, a dylynwyd hwy yn yr un modd gan y goreuon a'r perthynasau mewn rhyw ddwsin o gerbydau, a phawb yn datgan eu teimladau da. S. N. S.

Y PEIRIANNYDD BACH.

Ystori Mam.

Y dyn ifanc a wel'soch wrth y glwyd, Syr. Ie, dyna 'mab—fy mab Jack.

Sylwasoch ar y creithiau ar ei wyneb, Syr, a meddyliech, digon tebyg, eu bod yn anharddu gwynebpryd a fwriadwyd i fod yn hardd.

A! Syr, profa hyna nad ydych ddim yn gwybod; mae y marciau cochion hyna yn ei wneyd yn fwy prydferth i mi nawr na phan yn

faban yn fy mreichiau, gyda'i wallt melyn modrwyog a'i lygaid llon a'i groen teg, y rhedai y bobl i fewn ac allan o'r *trains* i edrych a gwenu arno, a'i ganmol ef y naill wrth y llall, yn sibrwd yn isel, ond ddim yn rhy isel i glustiau cyflym, balch mam glywed.

Oblegyd yr oeddem yn byw mewn tŷ bach ar bwys y *station*; a phan glyw'swn chwibaniad trên ei dad, arferwn godi y plentyn o'r cawell magu, neu oddiar y llawr lle yr eisteddai gyda'i deganau, a rhedwn i ben pella'r orsaf lle'r arosai'r *engine* bob amser, er mwyn cael y wên a'r gair serchus yr ymborthwn arnynt trwy y dydd.

Nid oedd mymryn o ofn ar y crwtyn wrth glywed y chwiban a'r clychau, swn yr olwynion a phwffiad yr ager. Chwarddai a bron neidiai allan o'm breichiau, fel braidd y gall'swn ei ddal, nes y plygai ei dad lawr weithiau a'i godi i ben yr *engine*, rhoi cusan iddo, ac yna ei daflu yn ol i mi.

Rol tyfu tipyn yn henach, 'doedd e' byth yn chwareu ceffylau neu sowldiwrs, fel plant bach ereill; wrth y trên y byddai 'fe yn wastad. Pob tamaid o bren fuasai gen' I at gynneu tân, yr oedd yn cael myn'd i wneyd rheilffordd ar y llawr yn mhob cyfeiriad.

"Peidiwch symmud fy *switch* mam," arferai waeddi arnaf. "Yr ydych yn sicr o ddryllio fy nhrên."

Felly, yr oedd rhaid i mi fyn'd at fy ngwaith yn ddystaw, heb ddigon o le weithiau i osod fy nhroed i lawr. Gosodid pob cadair yn y tŷ yn rhes wrth eu gilydd er dynodi y cerbydau, a'r hen gadair siglo fawr, a'r gloch dê yn glymedig wrthi, yn *engine*; ac yno yr eisteddai am oriau cyfain, yn esgus gofalu am y *valves* a gwaeddi ar y tânwyr.

Annghofia' I byth mo'r tro cynta' aeth ei dad ag ef ar yr *engine*. Yr oedd Jack wedi gofyn lawer gwaith am gael myn'd, ond dywedai ei dad bob amser am iddo aros nes y delai'n henach.

Paid poeni dy dad, Jack bach, meddwn wrtho, ac fel plentyn anwyl, ni ddywedodd air mwyach ar y mater am chwech mis neu ragor.

Ond y diwrnod hwnw, yr oedd y fath edrychiad ymbilgar ar ei wyneb, a chan dynu ei hun i'r lan yn dal a syth, dywedodd yn dyner, ei lais yn crynu ychydig, "Nhad, ydych yn meddwl mod I yn ddigon mawr 'nawr!"

Wrth edrych arno, gwelwn ddau ddeigryn yn ei lygaid heirdd. Rwy'n meddwl i'w dad eu gwel'd nhw hefyd, oblegyd, fe drodd ataf yn frysiog, a dywedodd—

"Yr ym yn cwrdd a'r trên i'r lân yn Nhre'hir, Mari, a daw Wil Brown a'r crwtyn nol yn *safe*, nid oes eisieu gofalu. Beth ydych chwi yn ddweyd."

Beth all'swn ddweyd ond ie? Ar amser swpper yr oedd wedi dod nol; ond nis gall'sai fwyta. Yr oedd ei lygaid fel sêr, ac yr oedd dau 'smotyn coch ar ei ruddiau, nes yr ofnwn ei fod yn glaf. Arferai fod yn siaradus iawn bob amser, ond nawr, prin yr ynganai air.

Tebyg i beth oedd e' Jack? gofynais iddo.

"O mam," meddai, "nid oedd yn *debyg* i ddim!"

Eisteddodd yn llonydd am foment mewn dwfn fyfyrdod, yna meddai, "Os nad oedd yn debyg i'r hyn oeddech yn ddarllen dydd Sul."

A beth oedd hyny, Jack? meddwn, oblegyd, yr oeddwn wedi llwyr annghofio.

"Oni wyddoch, mam." 'Adenydd y gwyntoedd!'"

Nid dyna y daith ddiweddaf ar yr *engine* o lawer, oblegyd, fel y tyfai i fyny, cymmerai ei dad ef yn aml ar y Sadyrnau, neu ddyddiau gwyl. Yr oedd yn hollol hyderus ac ufudd. Credaf y byddai yn well ganddo dori ei law dde bant nag ymyru a dim; ond gwyddai am bob *valve* a *screw*, a sylwai ar bob ysgogiad o law ei dad, a dysgodd yr holl arwyddion ar hyd y ffordd, fel y dywedodd fy ngwr wrthyf ragor nag unwaith,—

"Rwy'n credu, Mari, pe dygwyddwn gwympo'n farw ar yr *engine*, y gallai Jack gwblhau'r daith heb nam i neb."

Dysgai yn gyflym yn yr ysgol, ond ar ol amser ysgol pendrymai uwchben llyfrau ar beirianwaith ac ager. Plentyn rhyfedd oedd e', gyda drychfeddyliau yn mhell tu hwnt i'w oedran. Weithiau, pan yn eistedd wrth fy hunan, 'rwy'n meddwl am y pethau od yr arferai ddweyd wrthyf yr adeg hono. 'Rwy'n cofio un noson, pan oedd wedi bod yn darllen am hir amser o ryw lyfr oedd ganddo, iddo stopio o'r diwedd, a phwysodd ei ben ar ei law, ac edrychai tua'r tan.

"Mam," meddai, "ai nid yw yn beth syn fod Duw yn medru *trustio* dyn ag ef?"

A pheth, Jack?

"Ag ager—y gallu sydd ynddo, 'rwy'n feddwl."

"O mam, beth yw bod yn ddyn tebyg i James Watt, i wrando ar y fath gyfrinach a hona? 'Dyw hi byth yn *safe* i annghofio gwrando, oblegyd wyddom ni ddim pryd y gall Efe lefaru, a pha beth gawn ni glywed!"

All'swn I ddim ei áteb, oblegyd yr o'wn bron a thagu, ond taflais fy hosan lawr, a chofleidiais ef, ac wrth iddo edrych arnaf yr oedd rhywbeth yn ei lygaid nas gallaf byth annghofio.

Yr oeddem ni mewn amgylchiadau cyssurus yr adeg hono, bron a gorphen talu am y ty bychan yr oeddem yn byw ynddo. Siaradai fy ngwr a minau am yr hyn a'r llall fwriadem wneyd i Jack, pan fyddai'r tal diweddaf wedi ei wneyd. Ond cyn bod yr arian yn ddyledus, daeth fy ngwr adref un diwrnod yn glaf.

"Peidiwch cymmeryd ofn, Mari," meddai, "byddaf yn well 'fory."

Ond yr oedd yn waeth dranoeth. Dolur yr afu oedd ei afiechyd. Bu yn nychu am yn agos i flwyddyn. Yn ystod yr amser tywyll hwnw, Jack oedd fy unig gysur. Gwyddwn fod gan fy ngwr faterion yn gwasgu ar ei feddwl, y carai eu dweyd wrthyf, ond bob amser ceisiwn beidio rhoi cyfle iddo, am nas gall'swn oddef y son am ymadael.

Ond ar y diwrnod cyn i'r cyfwng olaf ddod, pan oeddwn yn eistedd ar erchwyn y gwely gan ddal ei law yn fy llaw I, dywedodd yn fwyn ond yn benderfynol, "Mari, 'rwyf am siarad a chwi heddyw."

Ymollyngais i lefain, fel pe byddai fy nghalon ar dori, a thynodd ochenaid druenus a aeth fel cleddyf trwy fy mron; ond nis gall'swn beidio llefain. Yna, fe gododd Jack oddiar y 'stol fach lle y bu yn eistedd mor dawel nes yr oeddwn wedi annghofio ei fod yno, a daeth ataf.

"Mam anwyl!" meddai, ac wrth sylwi, gwel'swn fod ei wyneb yn berffaith wyn, ond nid oedd deigryn yn ei lygaid.

"Mam," meddai drachefn, "gwelwch fod yn dda i fyn'd maes am ychydig. Mi wrandawa' I ar yr hyn sydd gan 'nhad i ddweyd."

Feallai y meddyliwch, Syr, fy mod yn llwfr, ond gwnes fel y ceisiai y plentyn genyf. Gadewais y drws yn gil-agored, a gall'swn glywed llais gwan fy ngwr, er na ddeall'swn ei eiriau, ac yna, atebion croew ac isel fy machgen, heb un cryndod yn ei lais melus. Yr oll a allaswn wneyd allan oedd—"Gwnaf, byddaf yn sicr o gofio bob gair."

"Mam," meddai mewn amser wedi hyny, "dywedodd nhad wrthyf am ofalu am danoch—fod yr holl fyd yn eiddo y dyn ffyddlon a gonest. Addewais iddo. A ellwch ymddiried ynof, mam?"

Aeth blynyddau heibio, a darfu i Jack trwy garedigrwydd cyfeillion ei dad gael ei bennodi i fod yn *engineer*—swydd a hiraethai am dani am amser hir. Rhyw ddiwrnod, yr oedd wedi cael cenad i aros gartref, ac yr oedd yn brysur yn gwneyd rhywbeth ogylch y tŷ a'r ardd, pan redodd un o weision cwmni'r rheilffordd i'r tŷ, gan waeddi arno,

"Jack, mae Mr. Harding yn eich ymofyn yn y funyd! Mae'r *express* yn aros yn yr orsaf; mae'r *engineer* newydd gael ffit, a dywed Mr. Harding nad oes ganddo neb y gall ymddiried y tren iddo ond chwi."

"Fi!" meddai Jack mewn syndod. "Yr *express*! ni yrais I ddim erioed ond y tren nwyddau!"

"Wel, wel," ebe'r dyn yn swta, "peidiwch aros i ddadleu! Gorchymyn yw gorchymyn, a dyma funyd a hanner wedi myned yn barod!"

Gyda hyn, ymddangosai Jack i ddyfod ato'i hunan. Gwnaeth wên arnaf, ac allan ag ef fel bollt, gan dynu ei got wrth redeg. Mewn llai o amser nag wyf fi yn gymmeryd i'w ddweyd, clywais chwibaniad y tren yn cychwyn, a gwyddwn fod fy machgen wedi ei ymddiried â gorchwyl a arferai gael ei roi i'r dynion mwyaf deallus a gofalus yn y gwasanaeth. Dygasant ef adref y noson hono, Syr, a gosodasant ef ar wely ei dad, a bob yn dipyn, yr adeg hono, ac wedi hyny, deuais i wybod beth ddygwyddodd y diwrnod hwnw.

Trwy i'r tren gychwyn allan mor ddiweddar, yr oedd yn rhaid iddynt dynu yr amser yn ol rywle ar y ffordd. Felly, ar y stripyn hir, union, trwy y gwastattir, yr oeddent yn gwneyd tri ugain milldir yr awr. Mewn gair, hedfanai'r tren. Teimlai Jack yr awel yn taro ei wyneb fel gwynt llym, er ei bod yn ddiwrnod tesog, balmaidd, yn y Gwanwyn.

Yna, cymmerodd anffawd ofnadwy le. Torodd y wialen fawr sy'n rhwym wrth y *driving-wheel* yr ochr dde i'r *engine*. Ymddangosai Jack i fyw ei holl fywyd drosodd yn yr un foment ddychrynllyd hono pan

y gwelodd ben y wialen yn neidio i'r lan. Tarawodd yn erbyn y llwyfan y safai efe arno, a drylliodd ef yn filoedd o ddarnau. Ac nis gwyddai ragor hyd nes i boen dirfawr ei ddeffroi o'r man y syrthiasai yn ddideimlad ar y gerbydres.

Wedi ei losgi, a bron yn ddall—ei gnawd yn syrthio oddiar ei ddwylaw, cofiodd am ei *engine* yn rhuthro yn ei rhyferthwy i ddystryw. Tybiai ei fod yn gweled y teithwyr o fewn y cerbydau. Gwyddai pa fodd yr edrychent, a pha beth oeddent yn wneyd—y gwyr yn darllen, yn ysmocio, yn siarad am y lecsiwn, am bris yr ŷd; y gwragedd gyda'r babanod prydferth ar eu bronau; plant bychain yn ymrythu i'r ffenestri, ac yn ceisio'n ofer i rifo pyst y pellebr; pobl ieuainc, hapus, dichon, yn myned ar eu taith briodasol, ac ereill ar ol hir grwydro, yn dychwelyd adref.

Wrth frysio i'w le yn y pen blaen i'r gerbydres, cofiai iddo weled y boreu hwnw enethig dlos gyda chwmmwl o wallt euraidd yn pwyso ar y ffenestr, i roi y cusan ymadawol i'w thad ar y *platform*. Clywai y boneddwr yn dweyd, "Cymmerwch ofal da o mami."

Y taniwr—yr hwn oedd yn ddyn lled wrol, ond gyda gwraig a phlant gartref—a ollyngodd ei hun i lawr oddiar y gerbydres, a diangodd. Gallasai Jack fod wedi gwneyd yr un peth. Ond ymlusgodd ar hyd ochr y gerbydres oedd yn carlamu ar ei hynt, ac yn ofalus a phoenus, dringodd i'w le, a chyda phob ysgogiad o'i law teimlai loes annhraethol, ond trodd y gerbydres yn ei gwrthol, a chymhwysodd y *brakes*.

Yna, fe stopiodd y trên, wedi ei achub o enau'r pwll, a dygasant fy machgen oddiwrth ei bost, yn ffyddlon a gonest.

Aeth amser maith heibio cyn i glwyfau Jack wella. Daethai pobl y rheilffordd yn aml i'w weled—'allai neb fod yn fwy tyner, a chafodd Jack ei gyflog yn llawn bob wythnos.

Ond un noson, pan oedd Jack wedi dechreu myn'd ychydig ma's, daeth un o'i gymdeithion mewn. "Dere, 'machgen I, fe ofidi i farwolaeth yma," meddai. "Mae eisieu newid arnat. Mae cwrdd mawr o wyr y gwaith yn y neuadd heno. 'Rwyf ar fy ffordd yno. Dere 'mlaen."

"Pa fath o gyfarfod?" ebe Jack.

"Nis gallaf ddweyd yn gywir. Rhywbeth dyddorol, medde'n nhw, a phawb wedi eu gwahodd."

"Ond 'alla' I byth dod â'r gwyneb hwn," ebe Jack.

"Pw, pw, fachgen. Mae'n nos, a 'wnaiff neb sylw. O leiaf, 'does dim rhaid iddyn' nhw."

Wedi gwasgu tipyn arno, aeth Jack gydag ef, a chyda bod y glwyd yn cauad, wele Mrs. Morgan y ty nesaf yn rhedeg i fewn fel yr ewig. "Dewch, Mrs. Jones, yn y funyd i'r cwrdd. Brysiwch, neu fe fyddwn yn ddiweddar."

A chyn i mi gael amser i gymmeryd fy anadl bron, yr oeddwn yn nghanol y dorf wrth ddrws y neuadd.

Maes o law, agorwyd y drws, a daeth Jack mewn gyda Tom. Clywais rywun yr ochr arall i mi yn sibrwd, "Dyna fe!" ac arall, ac arall,

nes yr aeth yn si drwy yr holl le; ac ar unwaith esgynodd y fath fonllef na chlywais I erioed ei chyffelyb—na, ddim hyd y nod pan ddaeth y milwyr yn ol o'r rhyfel. Codai y gwyr ar eu traed, a chwifiai y gwragedd eu cadachau.

Ceisiai yr arolygwr siarad, curai y ford, ond yr oll yn ofer. Trwy'r cyfan, gwyliaswn I fy machgen. Edrychai o amgylch iddo, yn syn ar y cyntaf, yn methu dirnad beth oedd ystyr y cyfan. Edrychai pawb arno, a cheisiai pawb siglo dwylaw ag ef.

'Alla' I ddim dweyd, Syr, sut y bu—sut y darfu iddynt ei gario i'r ffrynt, er nad elai i'r *platform*: pallai fyned yno—sut y buont yn chwilio am danaf fi, a gwneyd i mi eistedd wrth ei ochr—sut y buont yn siarad, yn siglo dwylaw, yn chwerthin ac yn wylo,

O'r diwedd, dywedodd yr arolygwr fod yno eneth fechan, wyres i brif swyddog y gledrffordd, yr hon oedd yn y trên gyda'i mam ar ddydd y ddamwain, ac yr oedd hi wedi ei dewis gan luaws o gyfeillion diolchgar i gyflwyno arwydd fechan i'r dyn ag oedd ei wroldeb ffyddlon wedi achub cynnifer o fywydau.

Yna, gwelwn foneddiges brydferth mewn gwisg sidan yn cerdded i fyny yr adeilad, gan arwain y plentyn tlysaf a welais erioed. Teimlasi Jack yn cyffro, oblegyd hi oedd y plentyn y daeth ei gwyneb ato yn yr awr ddychrynllyd hono ar y gerbydres. Gollyngodd yr un fechan law ei mam, pan ddaeth yn agos, ac edrychai i'r lan gyda llygaid gleision, ac yn ei llaw yr oedd cydaid o aur. Gallech weled y perlau mawrion trwy y rhwydwaith sidan. Daliodd ef i fyny at Jack, ac yr oedd yr ystafell mor llonydd ag angeu. Clywais un ochenaid fawr yn codi i wddf fy machgen, ac wedi'n fe gododd y plentyn yn ei freichiau, a safodd i fyny yn syth a thal. Ond ni chymmerodd y cydaid arian. "Na, fy anwylyd," meddai mewn llais isel, tyner, mor glir fel y gallai pawb glywed. Yna cusanodd hi, a chododd un cwrlyn hir oddiar ei gwddf. "Dyma'r unig aur 'rwyf fi'n 'mofyn," ebai, ac edrychodd ar fam y fechan gyda gofyniad yn ei lygaid. Amneidiodd y foneddiges, a thynodd Jack siswrn bach allan o'i logell, a thorodd y cwrlyn yn fwynaidd, a gosododd ef yn ofalus o'r neilldu. A, Syr, os oeddynt yn gwaeddi o'r blaen, dyna waeddi 'nawr. Yr oedd yr holl adeilad yn diaspedain trwyddo. Ond ni chymmerai Jack yr arian.

"Nid y ni pia nhw. Beth allwn ni wneyd â nhw? Allwn ni ddim eu taflu ffwrdd," ebe'r arolygwr.

"Mi ddywedaf wrthych, Syr," meddai Jack o'r diwedd. "Cafodd Jim y *brakesman* ei ladd yr wythnos ddiweddaf. Gadawodd wraig afiach a chwech o blant bach. Rho'wch yr arian iddyn' 'nhw." Ac felly y gwnaethant.

'Nawr, syr, gwyddoch beth yw ystyr y creithiau ar wyneb fy machgen i mi. 'Rwy'n darllen yn y marcian cochlyd "Ffyddlon a gonest," ac ni fyddwn yn foddlawn eu cyfnewid am arfbais unrhyw frenin ar unrhyw orseddfainc yn y wlad.

C. R.

PREGETHWYR YN YSMOCIO.

Dywedir i Mr. Spurgeon ddweyd ychydig flynyddau yn ol, ei fod ef yn ysmocio er gogoniant i Dduw; ond os dywedodd efe hyny, mae ei brofiad yn wahanol i'r rhan fwyaf o ysmocwyr. Fe all yr yfwr gwin ddwyn *argument* weddol dros ei fod yn yfed gwin. Sicrha chwi ei fod yn cymmeryd gwin er mwyn ei gylla a'i fynych wendid: ei fod yn edrych arno fel ymborth gwerthfawr, neu o leiaf, fel *help* mawr i ymborth: fod ei feddyg wedi ei gymmeradwyo iddo: cyn belled ag y mae yn flasus i'r genau, ei fod ef yn foddlon ei roddi i fyny er mwyn ereill, ond ei fod yn ychwanegu at ei gymhwysder at waith, ac am y rheswm hwnw ei fod yn ei gymmeryd. Mae yr *argument* hon yn aml yn gyfleus, ac weithiau yn rhanol wir. Ond anaml iawn y dyga yr ysmociwr gyffelyb reswm dros ei flys at y *cigar*. Wrth ysmocio, diraddia'r arferiad; condemnia'r *cigar* rhwng y pwffiadau; a llongyfarcha chwi yn dawel am beidio ysmocio, tra mae yn pwffian y mwg o'i enau. Neu, ar y goreu, tosturia wrthych am eich bod yn ymwadu â *luxury* mor fawr. Anfynych y dywed mai wrth arch y meddyg y mae yn ysmocio. Anfynych yr haera fod ei bib yn anhebgorol i iechyd, i nwyfiant, i dreuliad, a chymhwysder at waith. Blys yw hi, ac fel blys pur a syml, cymmeradwya neu condemnia hi, fel y dygwydda. Ac yn hyn y gorphwys fy anhawsder â'r pregethwr sydd yn ysmocio, oblegyd ymddengys yr ysmociwr i mi fynychaf i gael ei gysur ar draul cysur ereill. Os yr ysmocia ar yr heol, fe a chwytha fwg ei bibell i wyneb rhyw ymdeithydd teimladol a fyddo yn myned heibio. Os yw yn ysmocio yn y tŷ, fe leinw y *curtains* a'r dodrefn, ac hyd y nod y papyr a'r darluniau ar y muriau â mwg drewllyd y tybaco. Os yr ysmocia yn yr ystafell sydd wedi ei neillduo at y perwyl hwnw, neu yn y cynnyrch rhyfeddol hwnw o wareiddiad diweddar, y cerbyd ysmocio, lle mae y llawr a'r awyr yn ymgystadlu mewn bryntni, mae yn cario tawch yr awyr afiach yn ei ddillad i ba le bynag yr elo. Yr hwn na thorai er dim ar gymdeithas boneddigesau mewn dillad wedi eu d'wyno, a wthia arnynt yr hyn sydd i lawer yn llawn mor ffiaidd, sef arogl anhyfryd mwg tybaco. Ond a yw trosedd golygfa anhyfryd yn llai ffiaidd nâ throsedd arogl anhyfryd, oblegyd fod un yn ymosod ar y ffroenau, ac nid y llygad? Hytrach yn waeth. Oblegyd gellwch gau y llygad, ond dim 'mo'r ffroenau. Pa fodd y gall pregethwr bregethu hunanymwadiad, ac ymarfer â hunanfoddhad? Dyna'r cwestiwn sydd yn fy nyrysu I pan bwy' yn gweled dynion wyf yn eu parchu, nid am eu dysgeidiaeth yn unig, ond am eu duwioldeb, eu purdeb, a'u gwroldeb Cristionogol, yn ymdrin â duwinyddiaeth ar ol ciniaw, gyda phibelli neu *cigars* yn eu genau, *spittoons* ger eu traed, ac awyr a ymddengys i mi mor afiach ag a wnai y cyfryw awyr chwarter canrif yn ol. Nid wyf yn eistedd mewn barn ar fy mrodyr. Mae genyf finau, yn ddiamheu, fy mlysiau; ac nid wyf yn fwy rhinweddol nâ'm cymmydog, am nad yw'r bib yn un o honynt. Ond mae'r pwnc o hyd yn aros.

Ychydig flynyddau yn ol, yr oedd offeiriad ar ymweliad mewn ty i gyfaill i mi. Ar ol ciniaw, eisteddodd i lawr o flaen y ty â'i bibell yn

ei enau, gan dybied ei fod yn ystyriol dros ben wrth beidio ei gwthio ar wraig y ty. Chwareuai y crwtyn bach o amgylch. Yr oedd yn grwtyn yn yr hwn yr oedd y gynneddf ddynwaredol wedi ei dadblygu yn fawr, a gwelodd yr offeiriad cyn bo hir fod y bachgen yn llygadu arno gyda llygad treiddgar. Yn mhen tipyn, galwodd y bachgenyn ato, ac o hyd yn ysmocio ei bib yn dawel, dechreuodd bregethu wrtho ar ddrygau tybaco, ac annogai ef i beidio byth â syrthio i'r arferiad atgas o ysmocio. Mi glywais y bachgen wedi hyny, gyda llygaid tan-llyd, a gruddiau cochion, a llais clir, yn desgrifio yr olygfa wrth ei fam. "'Dwy' I byth am glywed y dyn hwna yn pregethu," meddai, "byth, byth." Ceryddai y fam ef yn dyner, ond os nad wyf fi yn camsynied yn fawr, cydymdeimlai y fam ormod ag ef, nes gwneyd y cerydd o ddim effaith.

Wedi'r cwbl, nid yw y *cigar* ond cysgod. Mae ysmocio yn ddrwg os yw yn hunan-foddhad drwg. Yr hwn a all gymmeradwyo y bibell â'i eiriau a all ei chymmeradwyo hi yn gydwybodol â'i fwg, ond yr hwn sydd yn meddwl mai ei ddyledswydd yw pregethu wrth fechgyn ifeinc yn erbyn y bib, ni ddylai wneyd hyny a'r bib yn ei enau ei hunan. A gadael pwnc yr ysmocio o'r neilldu, nid oes eithriadau i'r egwyddor gyffredinol—ymarferwch â'r hyn ydych yn ei bregethu. Gall y bregeth fod, a dylai fod, yn uwch nâ'r ymarferiad, oblegyd mae y bregeth yn gosod allan *ideal* y pregethwr, ac mae y safon sydd gyda ni, fynychaf, yn uwch ac yn well nâ'r hyn ydym. Ond mae ymarfer yn bwyllog ac yn benderfynol â'r hyn nas gallwn yn ein horiau goreu ei amddiffyn ynom ein hunain na'i gymhell i ereill mewn cyffelyb amgylchiadau i ni, yn dystrywio holl nerth pregethu y pwlpud. Dylai pob pregethwr fod yn alluog i ddweyd gyda Phaul, "Byddwch ddylynwyr i mi." Gwyn ei fyd y neb a fedr ddweyd hyny gyda chydwybod glir.

L. A.

NODYNAU GWASGAROG.

HYNOD!

Bu Syr Robert Bell, Seryddwr Breiniol yr Iwerddon, yn darlithio yn ddiweddar i gynnulleidfa o blant ar y sêr gweladwy, a dywedodd nad yw y seren agosaf i ni ddim yn weladwy yn Llundain—ei bod, mewn ystyr, yn feddiant ein cefnderod yr ochr arall i'r belen; ei bod yn ddysglaer a phrydferth, ac y gelwir hi yn *Alpha Centauri.* Mae ei phellder oddiwrthym yn ugain miliwn o filiynau o filldiroedd—20,000,000,000,000 Meddyliwch fod rheilffordd oddiyma ati, a'r cludiad yn ddim mwy na cheiniog am bob can' milldir, a thybiwch y Ddyled Wladol yn saith can' miliwn, dywedai Syr Robert, pe elai teithiwr â'r swm hwn mewn *sovereigns* mewn pum' mil o gerti i swydd-

fa'r orsaf, cawsai allan, ar ol i'r clerc dreulio llawer mil o flynyddoedd i rifo'r arian, fod dros gan' miliwn o bunnau yn rhagor yn eisieu cyn gallu talu y cludiad llawn.

Y PARCH. WILLIAM EVANS.

(*Gweler tud.* 19.)

Yr wyf yn ddiolchgar iawn i Mr. W. D. Jeremy am ei sylwadau yn y rhifyn diweddaf yn nghylch W. Evans, ac am wella rhai o'r gwallau y darfu i mi syrthio iddynt. Nid yw *Cefn*gwili yn dal cyssylltiad â'r afon Gwili sydd yn ymarllwys i Dowi, ger Caerfyrddin; ond â'r afon Gwili, sydd yn rhedeg trwy Blwyf Llanedi, ac yn ymarllwys i enau yr afon Llwchwr ychydig islaw Llangennech. Mae Cefngwili, fodd bynag, yn Sir Gaerfyrddin, ac nid yn Morganwg, ac yn gorwedd tua hanner y ffordd rhwng Llangennech a Llandybie; ac yn nes efallai ychydig, fel y dywed Mr. Jeremy, i Abertawe nag i Gaerfyrddin. Rhoddais *dybiaeth* (cyfeiliornus yn marn Mr. J.) yn nghylch perthynas Mr. W. Evans a John Evans o'r *Journal* Office ar *awgrymiad* Mr. Alcwyn C. Evans, yr hynafiaethydd enwog o dref Caerfyrddin; ac fel tybiaeth y rhoddais ef. Gellir olrain y mater hwn yn mhellach etto. Tybiaeth hefyd yw'r awgrymiad yn nghylch perthynas W.E. â'r Parch. W. Evans a sefydlodd Goleg Caerfyrddin, seiliedig ar y sylwadau yn Marwgof W. E., y nai yn yr *Unitarian Reform* am 1857, lle y dywedir am ei berthynasau, "Many distinguished themselves in the halls of learning." Yno hefyd y dywedir fel hyn:—"He composed a Welsh and English Dictionary which is considered the best existing, besides assisting in the composition of other writers. His library was very extensive, and descended to his nephew and namesake. In each work he had his name printed on a label. 'Philosopher' was at first added, but this was cut out by the modest student; so the books remain with the omission visible." Y mae'r awgrymiad a geir yma yn ddigon i brofi awduraeth y Geiriadur, i'm tyb I, er yn cynnwys y gwall o'i ddesgrifio yn "Welsh and English" yn lle "English and Welsh," gan mai y Saesneg sydd flaenaf. Mae Mr. Jeremy yn benderfynol iawn pan yn awgrymu eu bod yn annghredadwy i William Evans gyfansoddi y Geiriadur. Yn ateb i hyn, nid oes genyf ond cyfeirio at y desgrifiad a roddais o'r Geiriadur ar dud. 269 o rifyn Rhagfyr. Gellir gweled y cyfryw ddesgrifiad yn *Nghaniadau Dwyfol* D. Jones o Gaio, llyfr a argraffwyd ac a gyhoeddwyd gan Ioan Ross yn Nghaerfyrddin, yn 1771. Ymddengys, felly, yn amlwg i mi na chyhoeddwyd y Geiriadur yn ddiweddarach na 1771, a 1771 yw y *date* a roddir gan Rowlands yn *Llyfryddiaeth y Cymry*.

Nid wyf hyd yn hyn wedi bod yn alluog i gael dim o hanes W. Evans ar ol 1776.—S. N. S.

Wedi ysgrifenu yr uchod, yr wyf wedi derbyn llythyr arall oddiwrth Mr. Alcwyn C. Evans, yn yr hwn y mae yn rhoddi *title page* yr ail-

argraffiad, yr hwn sydd yn ei feddiant of. Dywed, fodd bynag, fod rhywun wedi ceisio gwella y trydydd fligwr yn y *date*, fel y mae'n anhawdd penderfynu pa un ai 1, 2, neu 3 ydyw. Yn y cyfamser, yr wyf finau wedi gweled copiau o'r ddau, a'r *dates*, heb nag *os* nag *ond*, ydynt 1771 a 1812. Yr oedd y Parch. D. Silvan Evans wedi awgrymu y *date* olaf o'r blaen, ac nid oes un amheuaeth i fod yn y mater. Bydd yn feddlonrwydd i gael y *title page* gwreiddiol, a dyma fe :—

"A New English-Welsh Dictionary, containing all words necessary for reading an English author. Wherein not only the corresponding British is given to the English, but also every English word is accented to prevent bad pronunciation, the part of speech added to which each word respectively belongs, and proper authorities subjoined where necessary. The whole carefully compiled from the most approved authors in both languages, By William Evans. Eccl. xxxiii. 17. *Antiquam exquirite matrem.*—Virgil. Carmarthen: Printed for John Ross and Richard Rydero; and sold by Mr. Raikes, Glocester; Mr. D. Lewis, Lewin's Mead, Bristol; Mr. Jones, Brecon; Mr. Beadles, Pontypool; Mr. D. Morgan, Neath; Mr. D. Evans, Swansea; Mr. Samuel Evans, Llanwenog; Mr. J. James, Aberystwyth; Mr. W. Jones, Bala; and Mr. Allen, Haverfordwest. M.DCC.LXXI. Pp., VIII? (Not paged). 326 p.p. counted."

Mae yn yr ail yr ychwanegiad hwn:—"Second Edition. Improved by the late Rev. Mr. Richards, of Coychurch, Glamorganshire. Carmarthen: Printed and Sold by John Evans, 1812. 312 p.p."

Nid oes dim son fod a fynai Richards â'r argraffiad cyntaf. Y Parch. Thomas Richards, Ficer Llangrallo (Coychurch) ydoedd awdwr Geiriadur Cymraeg a Saesneg, a gyhoeddwyd yn 1753. Desgrifir hwn gan Monsieur Henri Gaidoz, o Paris, fel y goreu y gwyr efe am dano. Cyhoeddwyd pedwerydd argraffiad yn Merthyr Tydfil, yn 1839, ac nid yn 1838, fel y dywedir gan Rowlands. Daliodd Richards guradiaethau Llangrallo a'r Coitty 40 mlynedd. Bu farw Mawrth 20, 1790, yn 80 mlwydd oed. S. N. S.

WALTER D. JEREMY, YSW.

Yn y *Celt* ymddengys cyfres o erthyglau gan wahanol ysgrifenwyr ar "Gymry Cyhoeddus." Y Prif Athraw M. D. Jones, Bala, yw awdwr y drydedd ysgrif, yr hon sydd yn rhoddi hanes byr o fywyd a theithi y boneddwr uchod. Nid yw Mr. Jones yn brin ac yn gynnil yn ei edmygedd at wrthddrych ei ysgrif. "Yr wyf," meddai, "nid yn unig yn aduabod Mr. Jeremy, ond mewn cymdeithas agos ag of er yn bur agos i hanner can' mlynedd, a gallaf dystio na welais nemawr â chynnifer o ragoriaethau moesol yn perthyn iddo. Ni welais yn ei fuchedd erioed ddim i gywilyddio o'i herwydd.

"Ganwyd Mr. Jeremy yn 1825, yn agos i Lanbedr, Sir Aberteifi. Gweinidog oedd ei dad gyda'r Henaduriaethwyr yn Caeronen. Henad-

uriaethwyr ydoedd lluaws o hen Annybynwyr y ganrif o'r blaen, megys eglwysi Llanuwchlyn, Pwllheli, Heol Awst, Caerfyrddin, Llanbrynmair, &c. Enw tad Mr. W. D. Jeremy ydoedd y Parch. John Jeremy, ac yr oedd ei eglwys yn hen, ac wedi ei sefydlu mewn amser ag yr oedd Annghydffurfiaeth yn drosedd yn erbyn y wladwriaeth. Yr oedd y Parch. John Jeremy yn gweinidogaethu yn yr eglwys hon am y nesaf peth i ddim. Ond ychwanegai ei gyllid teuluaidd drwy gyfrannu addysg, yr hyn a barhaodd bron drwy ei oes. Yr oedd yn rhagori fel athraw, ac ymhyfrydai yn fawr yn y gwaith. Un o hen ysgolheigion y Parch. John Jeremy ydoedd y diweddar David Williams, Ysw., Castelldeudraeth, yr Aelod dros Sir Feirionydd. Hefyd, y diweddar Barchedig Rice Rees, M.A., Rhydychain, ac un o athrawon cyntaf Coleg St. Dewi, Llanbedr-Pont-Stephan, a'r diweddar Dr. William Davies, Ffrwdyfâl, wedi hyny, athraw meintonol *(mathematical)* yn Ngholeg Henaduriaethol Caerfyrddin.

"Cafodd y mab lawer o'i addysgu gartref gan ei dad, i'w barotoi gogyfer ag ysgol uwchraddol, ac aeth yn fyfyriwr i Goleg Henaduriaethol Caerfyrddin yn 1841, lle yr arosodd hyd 1845. Y pryd hwnw, yr oedd yn meddwl bod yn ymgeisydd am y weinidogaeth. O Goleg Caerfyrddin aeth i Brif Athrofa Glasgow, lle y pasiodd yn anrhydeddus, ac y graddiodd yn M.A. gydag anrhydedd *(honours)*—safle nad ennillwyd gan neb arall y flwyddyn hono ond un heblaw efe, a safle nad ennillir yn aml gan neb."

Wedi treulio peth amser yn Llundain yn athraw teuluaidd, dywed y Prif Athraw Jones i Mr. Jeremy yn fuan droi ei sylw at y gyfraith, a dywed mai ei waith yn awr yw tynu gweithredoedd ac ewyllysiau, a chynghori yn gyfreithiol yn nghylch prynu a gwerthu tiroedd.

Mr. Jeremy yw Trysorydd y Bwrdd Henaduriaethol, yr hwn ydyw corff llywodraethol Coleg Caerfyrddin, ac hefyd, Trysorydd Ymddiriedaeth Dr. Daniel Williams. Mae hefyd yn awdwr llyfr ar *The Presbyterian Fund and Dr. Williams' Trust, with Biographical Notes of the Trustees, and some account of their Academies and Schools.* Y mae hwn i'w gael gan Williams and Norgate, London, pris 6s.

Wedi talu gwarogaeth uchel i Mr. Jeremy fel Cymro a dyn haelionus, diwedda y Prif Athraw ei erthygl fel hyn:—"Y mae ei feddwl o duedd Geidwadol, ac y mae tuedd yn ei swydd i'w wneyd yn fwy felly, ond er hyny, y mae efe wedi cael ei ennill i fod yn Ymreolwr, ac yn bleidiwr aiddgar i Gladstone. Trueni nad etholid ef yn aelod dros ryw gynnrychiolaeth Gymreig. Y mae efe eisoes yn cartrefu yn Llundain, fel na fyddai unrhyw gost ychwanegol at ei gynnaliaeth, ac nid oes neb yn deall angen Cymru yn well. Nid yw yn siaradwr doniol, ond mae yn ddyn o synwyr mawr, barn gref, ac uniondeb diwyro. Byddai mor sylweddol aelod ag un sydd genym, ac y mae Ymneilldduaeth Cymru dan rwymau iddo mewn gwahanol gyssylltiadau. Nid clebrwr o fargyfreithiwr doniol yw, ond y barnwr pwyllog a'r arweinydd dyogel, a byddai ei gael i'r Senedd yn gaffaeliad i'r Blaid Ryddfrydig."

Mae y Prif Athraw wedi anughofio dweyd mai Undodwr ffyddlon yw Mr. Jeremy.

UNDODIAETH YN NGHYMRU.

Yr ol yr *Unitarian Pocket Almanack* am 1888, y mae gan yr Undodiaid yn bresenol 34 o gapeli yn Nghymru. Saif 14 o'r rhai hyn yn Sir Forganwg, 12 yn Sir Aberteifi, 7 yn Sir Gaerfyrddin, ac 1 yn Sir Frycheiniog. O'r rhai sydd yn Morganwg, cynnelir gwasanaeth rheolaidd mewn naw, gwasanaeth achlysurol yn un o honynt, sef Bridgend, a thri wedi ou eau. Mewn tri o'r naw uchod cynnelir y gwasanaeth yn Saesneg. Ni chynnelir gwasanaeth rheolaidd yn Sir Gaer ond mewn un capel yn unig, sef yn nghapel Caerfyrddin; y mae pedwar yn cynnal y gwasanaeth yn bythefnosol, un yn fisol, ac un (o herwydd afiechyd y gweinidog) wedi ei gau.

RHYWBETH ALLAN O LE.

Nid yw'r ystadegau uchod yn dangos fod Undodiaeth yn llwyddiannus iawn yn Nghymru. Ac y mae hyn yn wir, mewn modd neilldnol am Sir Gaer, lle nad yw ein hachosion (yn ddieithriad) ond adfyw. Temtir ni, weithiau, i ofyn pa beth yw y rheswm am hyn? Ond y mae yn anhawdd d'od o hyd i atebiad boddhaol. Y mae Undodiaeth wedi dechreu cael ei phregethu yn Nghymru, bellach, er ys yn agos i ganrif o amser, ac nid oes genym etto ond 34 o gapeli, ac yn agos i hanner y cyfryw yn ddim ond adfyw, neu wedi eu eau. Y mae y sefyllfa hon yn un ddylasai gael sylw difrifol pob gwir Undodwr, a chyda eich caniatad, Mr. Gol., gwnaf alw sylw pellach at y mater yn un o'r rhifynau dyfodol. A.B.

Manion a Hanesion.

Pwy feiddia ddweyd fod enaid un dyn yn *dropio* allan o gyrhaedd cariad tragwyddol Duw?—*Dr. A. P. Peabody.*

"Beth sydd wedi peru i chwi fod yn benfoel?" ebai un dyn wrth y llall. "Fy ngwallt," oedd yr ateb.

Dywedir fod pobl yr Unol Dalaethau yn gwario bob blwyddyn £120,000,000 ar dybacco, £101,000,000 ar fara, a £60,600,000 ar gig.

Dyledswyddau cartref ddylent fod yn ofal cyntaf gwraig. Cybyd ag y byddo gwaith i'w wneuthur dros dad neu fam neu gartref, penaf orchwyl merch yw ei wneuthur yn ffyddlon.

"Byd hynod ydyw hwn," ebai merch o forwyn wrth ei meistres, "pan ddeloch i edrych arno yn fanwl. Cawn rai dynion yn alluog i hwyllo llong dros y Werydd, tra y ceir ereill na wyddant y ffordd i ofalu am danynt eu hunain."

Yr Efengyl yw yr hyn a ddywed y Beibl am Dduw.—*G. Elliot.*

I fyny ac i waered i'n gwlad mae yr addolwyr yn ymsocio hyd at ddrws y cyssegr, a thrachefn yn adgynneu eu pibelli y fomont y maent allan. Mae genym yn awr i bregethu i bobl sydd yn awyddu gweled diwedd y gwasanaeth, fel y gallent ddychwelyd at eu blys, ar yr hwn y gosodant gymmaint o werth.

Efe, yn serchog: A freuddwydiwch ch'i am damf heno, f'anwylyd? Hi, yn ymarferol: Na, 'dwy' byth yn cael yr huullef.

Mae Duw heb ddiwedd: mae ei gariad heb ddiwedd.

Pan fyddo pobl uwchben eu digon, ychydig hidiant am glywed newyddion o barthau pell; ond os bydd dyn neu ddynes dlawd mewn trallod, ac yn cael gwaith caled i ennill bywioliaeth brin, hoffant gael llythyr i ddweyd wrthynt fod ganddynt gyfaill a rydd gynnorthwy iddynt.

Gwirionedd yw Duw, a goleuni yw ei gysgod.—*Plato.*

Deled hapusrwydd neu beidio, dylem geisio ymbarotoi i wneyd hebddo.

Dywed llyfrau cyssegredig yr hen Bersiaid, "Os dymunwch fod yn sanctaidd, addysgwch eich plant, oblegyd fe ga yr holl weithredoedd da a gyflawnant hwy eu priodoli i chwi."

Mae yn well bod yn fud na chael ein camddeall.

Cyfeillion goreu dyn yw ei ddeg bys.

Eleni, yr hon sydd yn flwyddyn naid, bydd pum' dydd Mercher yn mis Chwefror, yr hyn na ddygwydd etto hyd y flwyddyn 1914.

Pan fedr dynes gael llian bwrdd glân, platiau gloew arno, a dysglaid o fwyd o'i choginiad ei hunan ar y canol, dyna'r adeg y gall ofyn bendith, medd John Ruskin.

Gellionen.—Cynnaliwyd cyfres o gyfarfodydd mewn cyssylltiad â'r eglwys hon yn ystod gwyliau y Nadolig. Boreu Sul, pregethodd y gweinidog ar Nadolig. Yn y prydnawn, cynnaliodd dynion ieuainc yr Ysgol Sul eu cyfarfod chwarterol o dan lywyddiaeth y gweinidog. Arweiniodd Mr. Davies, Gellionen, y canu yn fedrus dros ben. Clywsom y dôn newydd 'Birchgrove' am y tro cyntaf mewn cyfarfod. Yr ydym yn deall fod y gweinidog wedi gwerthu 700 o gopiau o honi. Yn yr hwyr, yr oedd y plant bychain yn cyflawnu holl waith y cyfarfod. Yr ydym yn ddiolchgar i'r brodyr J. Williams a J. Morgan am fod mor ddiwyd i barotoi y plant. Y dydd Llun canlynol, cafwyd gwyl dê flynyddol y plant. Yr oedd y boneddigesau ieuainc wedi addurno yr ysgoldy yn ddestlus dros ben. Yn yr hwyr, cawsom gyngherdd o'r radd flaenaf, a'i hystyried o safle yr *amateurs.* Canodd y côr yn fedrus iawn; chwareuodd Mr. W. G. Smith, Birchgrove, y crwth mor feistrolgar nes ennill taranau o gymmeradwyaeth. Yr oedd yr ystafell yn Nhrebanos yn orlawn bob tro. Y mae yn dda genym fod golwg lewyrchus iawn ar bob peth cyssylltiedig â'r eglwys hon. Y mae aelodau newyddion yn parhau i ymuno â hi. Parhaed felly yw ein dymuniad.

Capel Fadfa, Llandyssul.—Ar Sul cymmundeb, Rhagfyr 18, 1887, yn y lle uchod, derbyniwyd 29 o aelodau newyddion—y rhan fwyaf yn bobl ieuainc—gan y Parch. J. Davies, Alltyplaca. Yr oedd y gweinidog yn bresenol, ac er ei afiechyd, anturiodd ddweyd gair ar achlysur mor ddyddorol. Mae eglwys Bwlchyfadfa yn rhifo yn awr ryw 152 o aelodau, o'r rhai yr oedd 110 yn bresenol ar y Sul uchod. Mae cyflwr y gynnulleidfa hon a'r Ysgol Sul gyssylltiedig â hi yn debygol yn awr yn fwy boddhaol nag y bu erioed o'r blaen yn ystod ei holl hanes oddiar ei sefydliad yn 1812.

Llwynrhydowen a Chapel Fadfa.—Cynnaliwyd cylchwyl flynyddol Ysgolion Sul y Llwyn a'r Bwlch yn nghapel newydd Llwynrhydowen ar ddydd Nadolig. Yr oedd cynnulleidfa luosog wedi dyfod yn nghyd, a chafwyd cyfarfod hapus iawn o'r dechreu i'r diwedd. Holwyd Ysgol y Llwyn ar Salm xxiii. gan Cadben Davies, Brownhill, ac Ysgol y Bwlch ar Ioan iv. gan Mr. John Davies, myfyriwr yn Ngholeg Caerfyrddin. Aeth y ddau drwy eu gwaith yn hynod o lwyddiannus, ac y mae diolchgarwch y ddwy Ysgol yn ddyledus iddynt am eu gwasanaeth parod a gwerthfawr. Yr oedd sylw neilldduol wedi ei dalu gan y ddwy Ysgol i'r gerddoriaeth, ac yr oedd y rhan hon o'r cwrdd yn wir effeithiol.

Capel y Graig, Llandyssul.—Cynnaliwyd gwyl dê flynyddol yr Ysgol Sul dydd Llun, Rhagfyr 26, 1887, trwy garedigrwydd Mr. a Mrs. Evans, Porth Hotel, yn y neuadd gyhoeddus. Daeth nifer mawr heblaw yr ysgolheigion a'r athrawon i'r te, a chafwyd gwyl *iawn* yn ol arwyddion nad oedd yn bossibl eu camddeall. Yn yr hwyr cafwyd cyfarfod adrodd a chanu yn yr un ystafell—cyfarfod hwylus neilldduol. Rhoddodd côr y plant, dan arweiniad Miss Davies, Alma House, foddlonrwydd cyffredinol. Elfen arall yn llwyddiant y cyfarfod oedd y rhan gymmerwyd ynddo gan y Misses Thomas, Collegiate School, Caerfyrddin, Mri. Davies a Thomas, Coleg Caerfyrddin, Mr. T. Lewis, a Mr. Thomas Evans, Danyrallt—y diweddaf yn aelod o'r ysgol ac yn gerddor ieuanc addawol iawn. Pasiodd yr adroddiadau hefyd gan y plant yn *noble.* Mewn gwirionedd, cyfarfod bach pert oedd e', a siarad mewn iaith gyffredin—mor bert, fel y cyffrowyd Mr. Evan Evans, Shop, i wneyd araeth ar y diwedd, er dangos mor

fawr yr oedd e' wedi ei foddloni. Nid hawdd ydyw cyffroi Mr. Evans i siarad mewn cwrdd cyhoeddus, ond gorchfygwyd ef yn lân y tro hwn gan swyn canu y plant ac ysprydiaeth *violin* Miss Liza Thomas, fel y torodd y llanw dros y rhagfuriau, a chafodd Mr. Evans hwyl ryfeddol wrth y gwaith. Cyn terfynu, rhanwyd 35 o wobrwyon rhwng y plant, y rhai oeddent wedi eu dosparthu yn bedwar *class*, yn ol fel yr oeddent wedi mynychu yr ysgol yn ystod y flwyddyn. Talwyd diolchgarwch i'r cadeirydd, Mr. John Evans, cyfreithiwr, yr hwn a wnaeth ei waith mewn modd deheuig iawn. Cyn ymadael, canwyd "Hen Wlad fy Nhadau," dan arweiniad Mr. T. Lewis.

Dowlais.—Y mae yn llawen genym nodi fod Banc Cynnilo Ysgol Sul Dowlais yn cadw i fyny mor dda. Rhanwyd, ar ddiwedd y flwyddyn, tua £35. Llanwodd Mri. T. M. Lewis a D. Evans, ysgrifenydd a thrysorydd y Banc, eu swyddi yn dda. Ar ymneillduad yr olaf o'i swydd, appwyntiwyd Mr. Saunders i lanw ei le, yn nghyd â Mr. Evan Lewis fel *trustee*. Yr ydym wedi gwella rhyw ychydig ar olwg allanol y capel yn ddiweddar. Gosodasom *weather-board* i fyny, *fence* oddeutu y tir cyssylltiedig â'r capel, clwyd haiarn o flaen y drws, ac yr ydym bron casglu digon yn ein plith ein hunain i glirio y draul.

Priodas. — Tachwedd 23, 1887, yn Swyddfa'r Cofrestrydd Neillduol, yn nhreflan henafol Llanbedr, priodwyd Mr. John Thomas, Ffinant Arms, Llanwenog, a Miss Mary Jones, Elvet House, Llanybydder. Mae y ddau yn awr yn byw gyda'u gilydd yn Ffinant Arms, yr hwn sydd wrth y fynedfa i Gapel Alltyplaca.

Priodas.—Ionawr 20, yn Nghapel Cribin, gan y Parch. D. Evans, yn cael ei gynnorthwyo gan y Parch. B. C. Davies (A.), Mr. D. Thomas Evans, Ynys, Dihewid, â Miss Sarah Evans, Mynach Arms, Cribin.

Marwgofion.

Rhagfyr 16, 1887, Ann, gweddw y diweddar Thomas Thomas, Blaencwm, Pantsôd, ger Talgarreg, Sir Aberteifi. Claddwyd yn Capel Fadfa y Llun canlynol, a gweinyddwyd yn yr angladd gan y Parchn. — Davies, Pisgah, a T. Thomas, Pantdefaid.

Rhagfyr 23, 1887, yn 79 oed, Margaret, gwraig Evan Jones, Clettwr Arms, Llandyssul. Claddwyd yn mynwent newydd y Llwyn y Llun canlynol, lle y pregethodd y Parch. T. Thomas.

Rhagfyr 31, 1887, yn yr Yspytty yn Aberdar, David Rees Evans. Genedigol oedd o gymmydogaeth Llanbedr, lle mae perthynasau lawer iddo. Cefnder iddo yw hen Olygydd yr Ymofynydd. Yr oedd wedi byw yn ardal Aberdar rywbeth tua 15 mlynedd, ac wedi ffurfio cyfeillion lawer, gyda'r rhai yr oedd yn anwyl iawn. Bu am flynyddau yn ngwasanaeth D. Davies, yr High Constable, lle yr oedd wedi ennill cymmeradwyaeth uchel fel dyn o fusnes trwyadl ac un y gellid ymddiried ynddo. Bu am hir amser yn aelod gwresog yn yr Hen Dy Cwrdd, a chofir am ei ffyddlondeb gan lawer. Ei oedran oedd 40. Chwaer iddo ydyw Mrs. Evans, Coedmor, ger Llanbedr, ac y mae dau frawd yn America. Claddwyd yn mynwent Brondeifi, Llanbedr, y Parch. R. C. Jones, yn gwasanaethu. Ffarwel, gyfaill anwyl, cawn gwrdd etto yn y man.

Ionawr 10, ar ol pedwar diwrnod o gystudd caled o'r *Inflammation*, yn nhŷ ei brawd yn Llanon, Ceredigion, Rachel, merch Evan Davies, Llythyr gludydd, Ciliauaeron, yn 28 oed. Claddwyd yn Ystrad. Gadawodd dad, mam, brodyr, a chwiorydd i alaru ar ol un ag oedd mor anwyl ganddynt.

Heddyw 'rwyf yma'n hardd fy ngwedd,
Cyn ychydig ddyddiau yn y bedd.

Ionawr 12, yn 84 oed, Jane, gweddw y diweddar William Jones, North Lodge, Alltyrodyn, Llandyssul. Claddwyd yn hen fynwent y Llwyn y dydd Llun canlynol; y Parch. T. Thomas yn gweinyddu.

JENKIN HOWELL, ARGRAFFYDD, &C., ABERDAR.

AT EIN DERBYNWYR.

TALLIAD.—Mrs. P., Llanfynydd,

☞ CEISIA gohebydd genym gyhoeddi y brotest a basiwyd yn Nghyfarfodydd Chwarterol Pantdefaid; ond gan nad oes genym gopi o hono, mae yn flin genym na allwn gydsynio â'r cais. Nid ydym ychwaith wedi cael hanes y cyrddau, ond gobeithiwn y byddwn yn abl i gyhoeddi y naill a'r llall yn ein rhifyn nesaf.

☞ Anfoner pob gohebiaeth at y Golygydd,

J. HATHREN DAVIES,
CEFNCOED,
NR. MERTHYR TYDVIL.

☞ Tyner pob *Post Office Order* ar y *Cefn* Post Office, ac yn enw J. H. Davies, Editor, &c. Cofier, fodd bynag, fod y *Postal Orders* weithiau yn rhatach nâ'r *Post Office Orders*. Fe ddylid bob amser defnyddio *Postal Orders* yn lle *stamps* mor bell ag y gellir.

TELERAU:—Pris 3c., trwy'r post, 3½c.; ar dri rhifyn a throsodd telir y cludiad.

CAPEL CRIBIN, SIR ABERTEIFI.

Cydnabyddwyd eisoes, £190 6s. T. Thomas, Rhydypistyll, 2s.; James Jones, Rhydowen Fach, 4s. 6ch.; B. Evans, Tancoed, 5s.; T. Jones, Felinban, 2s. 6ch.; D. Richards, Cwmsychpant, 1s. 6ch.; E. Lloyd, Clettwr Side, 5s.; J. Davies, Pantswllt, 1s.; T. Jones, Glan'rafon Arms, 1s.; J. Thomas, Talgarreg Mill, 2s. 6ch.; E. Thomas, Green Grove, 2s.; D. Evans, Graig, 1s.; J. Thomas, Quarry, 1s.; D. Thomas, Rhydowen, 1s.; Mrs. Williams, Llawrcwrt, 10s.; T. Jones, Henbant, 5s.; T. Davies, Crugeryr, 2s. 6ch.; J. Thomas, Crugeryr Factory, 3s.; T. Thomas, etto, 2s.; D. Jones, Waun, 1s.; E. Evans, Ffinant, 1s.; D. Thomas, Fadfa, 5s.; M. Davies, Cwmscydwyn, 1s.; D. Jones, Gwardafolog, 2s.; Mrs. Jones, etto, 2s. 6ch.; Mrs. Davies, Frondes, 1s.; Mrs. Thomas, Castellhowell Arms, 1s.; T. Thomas, Penpistyll, 2s.; T. Thomas, Green Grove, 1s.; Mrs. Thomas, etto, 1s.; Dl. Thomas, etto, 1s.; Mrs. Thomas, Lonelas, 1s.; John Jones, Rhydsais, 3s.; Mrs. Jones, etto, 3s.; David Lewis, Woodland Cottage, 2s.; Mrs. Lewis, Tyddyndu, 10s.

TRYSORFA ADDYSG Y DYNION IEUAINC.

Pob Tanysgrifiadau i'w hanfon i Rev. R. C. JONES, Lampeter

Rev. E. W. Lloyd, Cwmbach - - - - - -	£0 5s. 0d.
Caeronen Chapel - - - - - - - -	£0 19s. 3½d.